OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 No. 2303

# Gorchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002

## RHAN IV

## AMRYWIOL

### Gorfodi

**13.** Rhaid i ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn, ac eithrio lle darperir fel arall, gael eu gweithredu a'u gorfodi gan yr awdurdod lleol.

### Dirymu a.y.y.b.

**14.**—(1) Dirymir Gorchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2002(**1**).

(2) Bydd effaith Gorchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Mesurau Dros Dro) 1995(**2**) yn darfod tra bydd y Gorchymyn hwn mewn grym.

### Ffurflenni

**15.** Er gwaethaf erthygl 9 o Orchymyn Anifeiliaid (Darpariaethau Amrywiol) 1927(**3**), caiff yr awdurdod lleol ddarparu a chyflenwi copïau printiedig o unrhyw ddogfen neu ffurflen sy'n ofynnol o dan y Gorchymyn hwn.

(**1**) O.S.2002/281 (Cy.33).
(**2**) O.S. 1995/11.
(**3**) O.S. 1927/290.